RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG

CYFANSODDIAD

1. ENW

Enw'r mudiad yw "Rhieni Dros Addysg Gymraeg".

2. AMCAN

Amcan y mudiad yw cenhadu dros Addysg Gymraeg ac uno Cymdeithasau Rhieni a rhieni unigol sydd â'u plant yn derbyn addysg Gymraeg fel y rhoddir cyfle iddynt
(a) gyfnewid syniadau a phrofiadau ymhlith ei gilydd
(b) llefaru ag un llais ar faterion o bwys yn ymwneud ag addysg a threfniadau addysg Gymraeg.
Er mwyn hyrwyddo'r amcan uchod bydd y mudiad yn gweithio'n benodol i ddylanwadu ar rieni ac Awdurdodau Addysg Cymru i roddi mwy o gefnogaeth i addysg cyfrwng Cymraeg a bydd yn rhydd i weithredu'r cynlluniau a ganlyn ymhlith eraill:
(a) Trefnu cynadleddau, cyfarfodydd cyhoeddus a chylchoedd trafod ar gyfer y Cymdeithasau, ar raddfa leol, sirol, ranbarthol neu genedlaethol.
(b) Gweithredu ar ran y Cymdeithasau oll mewn perthynas â chyrff megis Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adran Addysg y Cynulliad, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru, AALl, Undebau Athrawon ac ati, trwy ohebu, darparu adroddiadau ethol dirprwyaethau, etc.
(c) Dylanwadu ar yr awdurdodau addysg, canolog a lleol, i sefydlu Ysgolion Meithrin ,Cynradd ac Uwchradd Cymraeg ym mhob cylch lle bo'r galw..
(ch) Cyhoeddi llenyddiaeth – pamffledi, llyfrynnau, etc. – gydag apêl arbennig at rieni Cymru, i'w hargyhoeddi o werth cyfundrefn addysg drwyadl Gymraeg
(d) Cydweithredu yn llawn â Mudiad Ysgolion Meithrin.

4. AELODAETH

Bydd aelodaeth o'r mudiad yn agored i (a) unrhyw Gymdeithas Rhieni a fo'n gysylltiedig ag ysgol lle ceir addysg Gymraeg, (b) rhieni unigol sydd â'u plant yn derbyn addysg Gymraeg.

5. TANYSGRIFIAD

Bydd i bob Cymdeithas Rhieni ac aelod unigol dalu i'r mudiad danysgrifiad blynyddol o swm a bennir o bryd i'w gilydd gan y Gynhadledd Flynyddol.

6. Y GYNHADLEDD FLYNYDDOL (i'w galw'n GF o hyn ymlaen)

(a) Llywodraethir y mudiad ymhob agwedd gan ddyfarniadau a phenderfyniadau'r GF.

(b) Fe fydd i'r GF y swyddogion a'r aelodau a ganlyn:
Llywyddion Anrhydeddus hyd at nifer i'w benderfynu o bryd i'w gilydd gan y Gweithgor ac am gyfnod amhenodedig.
Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd, Ysgrifennydd Aelodaeth, Ysgrifennydd Cofnodion a Swyddog Cyhoeddusrwydd. Daw tymor y swyddogion i ben bob tair blynedd.
Chwe chynrychiolydd wedi eu henwebu gan bob un o'r Pwyllgorau Sir. Fe gynnwys y chwech y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd sirol.
Dau gynrychiolydd o bob Cymdeithas Rhieni a fo'n perthyn i'r mudiad.
Unrhyw riant a fo'n perthyn i'r mudiad ac unrhyw unigolyn neu gynrychiolydd unrhyw fudiad cydymdeimladol a ellir ei gyfethol gan y mudiad o bryd i'w gilydd.

(c) Pwrpas y GF fydd derbyn adroddiadau yn ymwneud â gweithgarwch y mudiad, Pwyllgorau'r mudiad, y Gweithgor a'r Cymdeithasau Rhieni.

Bydd y GF yn trafod ac yn penderfynu unrhyw fater o bolisi neu gynllun gwaith a fo'n berthnasol i amcanion y mudiad, ac fe all y GF ddiwygio'r Cyfansoddiad yn unol â Chymal 12 isod.

7. Y GWEITHGOR

(a) Fe gynnwys y Gweithgor y Swyddogion a'r Cynrychiolwyr a nodir isod:
Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd, Ysgrifennydd Aelodaeth, Ysgrifennydd Cofnodion a Swyddog Cyhoeddusrwydd cenedlaethol y mudiad.
Pum cynrychiolydd a etholir gan y GF.
Un cynrychiolydd a enwebir gan "Mudiad Ysgolion Meithrin."
Unrhyw unigolyn neu gynrychiolydd unrhyw fudiad cydymdeimladol a gyfetholir gan y Gweithgor o bryd i'w gilydd.

(b) Y Gweithgor fydd yn gyfrifol am weithredu dros y mudiad yn yr adeg rhwng pob Cynhadledd.

8. PWYLLGORAU SIR

(a) Sefydlir Pwyllgor ymhob un o awdurdodau unedol Cymru (boed enw'r awdurdod yn Sir, Sir a Dinas neu Bwrdeistref Sirol) a gelwir y pwyllgor yn bwyllgor sirol, ond os bydd yr aelodau mewn unrhyw ardal yn dewis trwy fwyafrif a chyda chaniatâd y Gweithgor fe ellir sefydlu pwyllgor sir sydd yn gofalu am ardaloedd mwy nag un awdurdod addysg.

(b) Fe gynnwys y Pwyllgor Sir (i) ddau gynrychiolydd o bob Ysgol Gynradd ac o bob Ysgol Uwchradd lle ceir addysg Gymraeg. Enwebir y ddau gynrychiolydd gan y Gymdeithas Rieni leol; (ii) aelodau unigol o'r mudiad sydd yn byw o fewn y sir honno.

(c) Dewisir swyddogion eu hunain gan bob Pwyllgor Sir, h.y. Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd.

(ch) Pwrpas y Pwyllgor Sir fydd:
Meithrin cydweithrediad rhwng y Cymdeithasau Rhieni Lleol, yn arbennig wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar addysg Gymraeg yn y sir.
Sefydlu rhagor o Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Uwchradd Cymraeg. Ehangu darpariaeth addysg Gymraeg yn yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Cynorthwyo rhieni i ffurfio Cymdeithas Rhieni lle bo'r angen. Cysylltu pob Cymdeithas Rieni â'r mudiad "Rhieni dros Addysg Gymraeg".
Cydweithredu â Mudiad Ysgolion Meithrin.
Enwebu chwe chynrychiolydd i'r GF yn unol â Chymal 6(b) (iii)

Ffurfio is-bwyllgorau yn ôl y galw.

9. CYFETHOL

(a) Bydd yr hawl gan y GF, y Gweithgor a'r Pwyllgorau Sir i gyfethol unigolion neu gynrychiolwyr unrhyw fudiad cydymdeimladol, nawr ac yn y man.

10. RHEOLAU CYFARFODYDD

(a) Pleidleisio. Penderfynir pob mater a drafodir trwy bleidlais mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio. Mewn achos o bleidlais gyfartal bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(b) Quorum. Rhaid i un rhan o bedair o aelodaeth Cyngor, Pwyllgor Sir neu Is-bwyllgor fod yn bresennol cyn y gellir cynnal cyfarfod.

(c) Cofnodion. Cedwir llyfrau Cofnodion gan y GF, y Pwyllgorau Sir a'r Is-bwyllgorau, a chedwir yn y Llyfrau hynny gronicl o holl weithrediadau a phenderfyniadau'r cyfarfod.

11. ARIANNOL

(a) Fe ddefnyddir pob arian a gesglir gan y mudiad, neu yn ei enw, i hyrwyddo amcanion a gwaith y mudiad, ac ni chaniateir ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas arall.

(b) Bydd i'r Trysorydd Cenedlaethol a Thrysoryddion y Pwyllgorau Sir agor cyfrif yn y banc a chadw cyfrifon cywir o gyllid y mudiad.

(c) Bydd i Drysorydd pob Pwyllgor Sir gasglu'r tanysgrifiadau blynyddol o'r sir honno a throsglwyddo i'r Trysorydd Cenedlaethol ganran (a bennir o bryd i'w gilydd gan y GF) o'r tanysgrifiadau hynny. Lle nad oes Pwyllgor Sir yn bodoli cesglir y tanysgrifiadau blynyddol gan y Trysorydd Cenedlaethol.

(ch) Bydd blwyddyn ariannol y mudiad o Ebrill 1 hyd at Fawrth 31 y flwyddyn ddilynol.

12. NEWID CYFANSODDIAD

Yn unig ar yr amodau canlynol y gellir newid Cyfansoddiad y mudiad:

(a) bod y GF neu'r Pwyllgorau Sir yn cymeradwyo'r cynnig ac yn ei gyflwyno i'r GF i'w ystyried.

(b) bod yr Ysgrifennydd Cenedlaethol yn rhoddi rhybudd o'r cynnig i aelodau'r GF 14 diwrnod cyn y cyfarfod.

(c) bod dwy ran o dair o aelodau'r GF sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio yn cymeradwyo'r cynnig.

Tachwedd 2002